NHS
Yr Asiantaeth Genedlaethol Dros Ddiogelwch Cleifion

Gwybodaeth i gleifion

Gwybodaeth

22 Tachwedd 2005

Mae'r wybodaeth hon ar gyfer cleifion mewnol

Pam y dylech wisgo band arddwrn yn yr ysbyty

Pan fyddwch yn yr ysbyty, mae'n hollbwysig i chi wisgo band arddwrn (neu fand adnabod) sy'n cynnwys manylion cywir amdanoch. Mae'n sicrhau y gall y staff eich adnabod a rhoi'r gofal iawn i chi.

Mae'r Asiantaeth Diogelwch Cleifion Genedlaethol (NPSA) wedi derbyn 236 o adroddiadau o ddigwyddiadau'n ymwneud â bandiau arddwrn a gollwyd neu fandiau arddwrn a oedd yn cynnwys y wybodaeth anghywir. Cafodd tri chlaf belydr-x diangen, cafodd tri arall y driniaeth anghywir, ac mewn un achos ni chofnodwyd y manylion llawn am alergedd.

Mae'r NPSA wedi rhoi cyngor i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ar sut i hybu'r defnydd o fandiau arddwrn ac felly lleihau'r posibilrwydd y bydd y camgymeriadau hyn yn digwydd eto.

Beth i'w ddisgwyl pan fyddwch yn yr ysbyty

Dylech gael gwybod, naill ai mewn llythyr cyn mynd i'r ysbyty neu pan gewch eich derbyn i'r ysbyty, fod disgwyl i chi wisgo band arddwrn bob amser yn ystod eich arhosiad.

Dylai aelod o'r staff roi band arddwrn arnoch cyn gynted ag y cewch eich derbyn i'r ysbyty a dylech ei wisgo drwy gydol eich arhosiad. Os nad oes gennych fand arddwrn, gofynnwch i aelod o'r staff am un. Os yw'n dod i ffwrdd neu os yw'n anghysurus, gofynnwch i'r staff am un newydd.

Bydd y band arddwrn yn cael ei roi ar y fraich a ddefnyddiwch ar gyfer ysgrifennu oherwydd y gall y fraich arall gael ei defnyddio ar gyfer triniaethau meddygol sy'n gofyn, er enghraifft, am osod drip. Tueddir i'r rhain gael eu gosod yn y fraich nad ydych yn ei defnyddio ar gyfer ysgrifennu er mwyn lleihau'r anghyfleuster i chi. Drwy roi'r band arddwrn ar eich braich ysgrifennu, mae'n llai tebygol y caiff ei dynnu wrth drin y fraich arall.

Bydd y band arddwrn yn cynnwys yr holl wybodaeth hanfodol amdanoch sydd ei hangen ar y staff. Dylai pob claf mewn ysbyty, gan gynnwys babanod, plant a phobl mewn oed, wisgo band arddwrn drwy'r adeg.

Gwaith pellach ar adnabod cleifion

Mae technolegau newydd megis codau bar a thagiau radio'n cael eu cyflwyno mewn rhai ysbytai i helpu adnabod cleifion ac i cadarnhau gwiriadau cychwynnol a wneir gan staff yr ysbyty. Rhoddir y rhain yn y bandiau arddwrn ger manylion y claf.

Mae'r NPSA yn gweithio ar safoni bandiau arddwrn fel bod ganddynt yr un dyluniad ac fel eu bod yn cynnwys yr un wybodaeth ym mhob ysbyty drwy'r GIG. Bydd hyn yn helpu'r staff sy'n gweithio yn sefydliadau'r GIG drwy Gymru a Lloegr i wneud gofal cleifion yn fwy diogel. Bydd yr NPSA yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth am hyn maes o law.

Rhagor o wybodaeth

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am waith yr NPSA ar fandiau arddwrn neu adnabod cleifion, ewch i'n gwefan yn: **www.npsa.nhs.uk/advice**